

# Arolygu Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi (STIEF) y Parc



Ymwelodd arolygwyr â'r sefydliad hwn ym mis Mawrth 2026.



Roeddem eisiau gwybod a oedd pethau'n well, yr un fath, neu'n waeth i blant ers i ni ymweld ddiwethaf yn 2023.



I wneud hyn, roedd yr arolygwyr wedi:

- edrych o gwmpas y sefydliad
- gofyn i blant a staff lenwi holiadur ar bapur
- siarad â phlant
- siarad â staff a chynorthwywyr
- darllen dogfennau.

# Beth wnaethom ni ei ganfod?



**Diogelwch: 4 allan o 4**

- Dywedodd y rhan fwyaf o blant eu bod yn teimlo’n ddiogel ar eu noson gyntaf.
- Cafodd y plant y cymorth yr oedd ei angen arnynt.
- Roedd staff yn gweithredu’n gyflym i gadw plant yn ddiogel.



**Gofal: 4 allan o 4**

- Roedd staff yn trin plant â gofal a pharch.
- Roedd y celloedd yn lân ac mewn cyflwr da.



**Pethau i’w gwneud: 4 allan o 4**

- Roedd y rhan fwyaf o blant yn cael cyfnod da allan o'u celloedd.
- Gallai’r plant ddysgu sgiliau a chymryd rhan mewn gweithgareddau.
- Roedd plant wedi’u gwahanu angen mwy o amser allan o’u celloedd.



**Ailsefydlu: 4 allan o 4**


- Roedd addysg neu swydd wedi’i threfnu ar gyfer y rhan fwyaf o blant ar gyfer yr adeg roeddent yn gadael y Parc.
- Roedd plant yn cael cymorth da i baratoi i adael y Parc neu i symud i garchar oedolion.
- Roedd staff yn helpu plant i weld eu teuluoedd, a siarad â nhw.

# Beth ddylai'r carchar ei wneud?




Rydym yn awyddus i'r llywodraethwr ddarllen yr adroddiad rydym wedi'i ysgrifennu am STIEF y Parc, a gwneud cynllun.

Dylai'r cynllun ddweud wrthym sut y byddant yn datrys y problemau yn STIEF y Parc ac yn gwneud pethau'n well i garcharorion.



Mae'r adroddiad hwnnw ar gael yn llyfrgell y carchar.


# Beth ydym ni eisiau ei weld yn digwydd?



Rydym yn dymuno i blant wedi'u gwahanu gael mwy o amser allan o'u celloedd.



Rydym eisiau i ofal iechyd fod yn ddiogel. Rydym eisiau i feddygon a nyrsys gadw cofnodion da am y gofal maent yn ei roi i gleifion.



Rydym eisiau gweld mwy o gyrsiau hyfforddi fel bod plant yn gallu dysgu sgiliau ar gyfer swyddi.




Rydym eisiau i athrawon wybod sut mae helpu plant ag anghenion gwahanol.




Rydym eisiau i staff wybod sut i wirio galwadau a negeseuon plant er mwyn cadw’r plant a’r cyhoedd yn ddiogel.

# Beth fyddwn ni’n ei wneud?



Byddwn yn dod yn ôl ymhen ychydig o flynyddoedd i weld pa mor dda mae’r carchar yn ei wneud. Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i ddweud wrth bobl beth fyddwn ni wedi ei ganfod.



Os oes gennych chi gwestiynau, ysgrifennwch atom:

Arolygiaeth Carchardai EF
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London, E14 4PU